

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Gardden Road, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mawrth 2025

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mehefin 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Gardden Road, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 25 Mawrth 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 37 o holiaduron. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd sylwadau'r cleifion am ansawdd y gwasanaeth yn gadarnhaol ar y cyfan.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd broffesiynol, wyneb yn wyneb a thros y ffôn ac roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai'r cleifion gael gofal mewn ffordd amserol, a hynny gan y person mwyaf priodol. |

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg
- Llunio taflen wybodaeth i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwasanaeth a oedd yn canolbwyntio ar y claf
- Hygyrchedd y gwasanaeth
- Trefnu apwyntiadau dwbl os oedd angen darparu gwasanaeth cyfieithu
- Cynnal preifatrwydd ac urddas.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y safle mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, roedd angen ailaddurno rhannau o'r coridor.

Roedd yr ardaloedd o'r practis a welsom yn ymddangos yn lân ac roedd cyfarpar diogelu personol, fel menig a ffedogau plastig untro, ar gael i'r staff er mwyn lleihau achosion o groes-heintio.

Roedd cofnodion y cleifion yn drefnus iawn ac yn cynnwys manylion am y clinigydd a digon o fanylion am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddir i bob claf.

Roedd prosesau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom enghreifftiau da o reoli salwch aciwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf. |

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Sicrhau y caiff Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion eu hawdurdodi'n gywir a'u bod yn gyfredol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaethau
- Rhoi proses ar waith ar gyfer archwilio Codau Read yn rheolaidd a chrynhoi nodiadau i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyson. |

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Nodiadau gofal cleifion trefnus a chlir
- Cysylltu meddyginiaeth â nodiadau gofal cleifion
- Osgoi achosion o anfon pobl i'r ysbyty drwy gydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd proses rheolwr y practis o oruchwylio'r gwasanaethau a ddarperir yn briodol, a dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis a meddygon teulu sy'n bartneriaid yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol.

Roedd prosesau ar waith er mwyn sicrhau y cynhelir ffocws ar welliant parhaus.

Roedd y staff yn barchus ac yn gwrtais, a gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion ac a oedd yn gwbl ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau.

Roedd polisiau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w harwain yn eu gwaith o ddydd i ddydd yn ogystal â hyfforddiant priodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu rôl a chyfrifoldebau rheolwr y practis i sicrhau bod ganddi ddigon o amser ac adnoddau i gyflawni ei dyletswyddau'n llawn
- Adolygu rolau meddygon teulu sy'n bartneriaid a'u rhan yn y gwaith o reoli'r gwasanaeth er mwyn cefnogi rheolwr y practis
- Ffurfioli'r prosesau ar gyfer archwiliadau clinigol cyffredinol a mwy penodol ac adolygiadau gan gymheiriaid
- Sicrhau bod cyfarfodydd arfarnu, perfformiad a datblygiad blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff â'i reolwr llinell. |

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr
- Proses oruchwylio'r rheolwr a'i hymroddiad i wella'r gwasanaethau. |

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r arolwg cleifion yn gadarnhaol ar gyfer pob maes. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda. Dywedodd dau ymatebydd fod y gwasanaeth yn wael.

Dywedodd nifer o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar fyrder a, lle y bo'n berthnasol, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gallu cael apwyntiadau cyffredin pan fyddai eu hangen arnynt.

Dywedodd llai na hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn cael cynnig yr opsiwn i ddewis y math o apwyntiad yr oeddent am ei gael.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur ond un yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, a dywedwyd bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur ond un yn teimlo bod y meddyg teulu wedi esbonio pethau'n dda iddynt ac wedi ateb eu cwestiynau ac roedd pob un ond dau yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r meddygon yn dda iawn ar y cyfan, ond mae'n anodd trefnu i'w gweld.”

Mae'r system e-bostio ar gyfer trefnu apwyntiad i gynnal profion gwaed yn gweithio'n dda iawn. Ar ôl cael gweld y meddyg o'r diwedd, mae popeth yn dda. Mae staff y dderbynfa yn effeithlon iawn.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hiechyd eu hunain, drwy sicrhau bod cyngor hybu iechyd ar gael iddynt ar ffurf pamffledi a thaflenni yn yr ardaloedd aros. Roedd y staff clinigol hefyd yn argraffu taflenni cyngor ac yn rhannu dolenni gwe perthnasol yn ystod ymgynghoriadau lle'r oedd hynny'n berthnasol.

Gall cleifion â mynediad i'r rhyngwrdd ddod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ar wefan y practis.

Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis ar gael ar wefan y practis.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd broffesiynol, wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas â defnyddio hebryngwyr ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol i hebryngwyr.

Roedd y cynnig o hebryngwr yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion ac roedd hysbysiadau yn yr ystafell aros yn nodi hawliau'r cleifion i ofyn am hebryngwr.

Roedd desg y dderbynfa yn y brif ystafell aros ac roedd posibilrwydd y byddai eraill yn gallu clywed sgysiau a oedd yn cael eu cynnal wrth y ddesg. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai ystafell ymgynghori ar gael pe byddai angen i gleifion drafod unrhyw beth yn gyfrinachol.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y drysau i'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau pan oedd cleifion yn cael eu hadolygu, ac roedd gan yr ystafelloedd ymgynghori hefyd lenni preifatrwydd y gellid eu defnyddio pan oedd y cleifion yn dadwisgo neu'n cael eu harchwilio.

Amserol

Gofal amserol

Disgrifiodd y staff y trefniadau sydd ar waith i asesu cleifion gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, er mwyn nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a thriniaeth.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai cleifion gael gofal mewn ffordd amserol, a hynny gan y person mwyaf priodol.

Rhoddir opsiynau i'r cleifion sy'n cysylltu â'r gwasanaeth dros y ffôn er mwyn iddynt ddewis pa wasanaeth sydd ei angen arnynt.

Gwelsom dystiolaeth bod rheolwr y practis yn monitro lefelau boddhad cleifion gan ddefnyddio holiadur.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Nid oes gan y practis daflen gwybodaeth i gleifion ar hyn o bryd a fyddai o gymorth i'r cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad i'r rhynggrwyd. Rydym yn argymhell y dylid mynd i'r afael â hyn ar unwaith a bod taflen yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Dylai'r daflen gynnwys gwybodaeth allweddol fel manylion cyswllt ac amseroedd agor, y gwasanaethau a ddarperir, opsiynau apwyntiadau, presgripsiynau a throsolwg o dîm y practis.

Dylai'r practis ddatblygu a chyflwyno taflen wybodaeth i gleifion i helpu'r sawl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Er bod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth ddefnyddiol arall ar gael yn yr ystafell aros, roedd y rhan fwyaf yn cael eu harddangos yn Saesneg yn unig. Dywedwyd wrthym nad oedd llawer o gleifion a oedd yn siarad Cymraeg yn defnyddio'r practis, ac mai dim ond un aelod o'r staff oedd yn siarad Cymraeg. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn y practis.

Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith.

Hawliau a chydraddoldeb

Nifer cyfyngedig o leoedd parcio oedd ar gael yn y practis ac roedd y mynediad i'r brif fynedfa yn dda, gyda ramp wedi'i osod i helpu pobl ag anghenion symudedd. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael ynghylch cael cydsyniad dilys gan gleifion.

Cadarnhaodd ein harchwiliad o sampl o gofnodion y cleifion fod clinigwyr yn gwneud cofnod pan oedd y cleifion yn cydsynio ar lafar i archwiliad neu driniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Ar y cyfan, roedd y safle mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, roedd angen ailaddurno rhannau o'r coridor.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y rhannau o'r coridor yr effeithiwyd arnynt yn cael eu hailaddurno.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad yw'r feddygfa bellach yn addas at y diben ac nad yw'n gallu cynnig clinigau ychwanegol oherwydd prinder ystafelloedd clinigol a'r nifer cyfyngedig o leoedd parcio. Oherwydd hynny, mae'n ystyried peidio â chynnig dau wasanaeth ategol er mwyn hwyluso mwy o apwyntiadau wyneb yn wyneb. At hynny, mae'n ei chael hi'n anodd denu mwy o feddygon teulu oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Prin iawn yw'r lle ar gyfer storio nwyddau cyffredinol a chofnodion meddygol. Nid oes unrhyw le i'r staff dreulio eu hegwyllion nac ystafell benodol i gynnal cyfarfodydd neu hyfforddiant staff.

Roedd asesiad risg cyffredinol cyfredol ar waith, yn cwmpasu tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch, ac roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Roedd trefniadau ar waith i helpu i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Fodd bynnag, roedd un o'r gwresogyddion yn y coridor a oedd yn arwain i'r ystafelloedd ymgynghori o'r brif ardal aros yn boeth iawn a gallai beri risg o anaf llosg i'r cleifion a'r staff.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y gwresogydd yn y coridor sy'n arwain at yr ystafelloedd ymgynghori o'r brif ardal aros yn cael ei orchuddio neu fod ei dymheredd yn cael ei reoleiddio i leihau'r risg o niwed i'r cleifion a'r staff.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion, ac roedd system ar waith i wirio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys bob wythnos.

Dywedwyd wrthym fod rhybuddion diogelwch cleifion a hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys yn cael eu rhannu â'r staff drwy drafodaethau wyneb yn wyneb neu drwy anfon negeseuon electronig.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith a adolygwyd ym mis Chwefror 2025. Fodd bynnag, nid oedd yr aelod o staff a adolygodd y polisi wedi ei lofnodi.

Rhaid i'r practis sicrhau bod polisiau'n cael eu llofnodi gan yr aelod o staff sy'n eu hadolygu.

Roedd yr ardaloedd o'r practis a welsom yn ymddangos yn lân ac roedd cyfarpar diogelu personol, fel menig a ffedogau plastig untro, ar gael i'r staff er mwyn lleihau achosion o groes-heintio.

Roedd hylif diheintio dwylo ar gael o amgylch y practis, ac roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael mewn ardaloedd clinigol ac yn y toiledau. Fodd bynnag, nid oedd y cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin yn cyrraedd safonau cyfredol gan fod cefnfyrddau teils arnynt. Roedd yn anodd glanhau'r cefnfyrddau oherwydd hyn ac roedd yn cynyddu'r risg o groes-heintio.

Rhaid i'r practis osod cefnfyrddau newydd yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin, i leihau'r risg o groes-heintio.

Roedd gwybodaeth hyfforddiant y practis yn dangos bod atal a rheoli heintiau yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant gorfodol. Gwelsom fod pob aelod o'r staff clinigol a'r staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, ar lefel sy'n briodol i'w rôl.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn ogystal â dogfennau i ddangos bod cysylltiad rhagorol rhwng rhagnodi meddyginiaethau a meddyginiaethau rheolaidd â'r diagnosis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi sawl maes i'w gwella.

Gwnaethom edrych ar y Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis a gwelsom nad oedd rhai ohonynt yn gyfredol nac wedi cael eu hawdurdodi'n gywir. Roedd hyn yn peri risg o niwed i'r cleifion.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Gwelsom nad oedd meddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng yn cael ei storio mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno.

Rhaid i'r practis sicrhau bod meddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng yn cael ei storio mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno.

Roedd tymheredd yr oergell storio meddyginiaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd yn electronig ac roedd cofnodion yn cael eu cadw. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ffordd o fonitro tymheredd yr oergell pe bai'r cyflenwad trydan yn methu. At hynny, nid oedd tymheredd yr ystafell a oedd yn cynnwys meddyginiaeth nad oedd angen ei chadw mewn oergell yn cael ei fonitro.

Rhaid i'r practis sicrhau y gellir monitro tymheredd yr oergell pe bai'r cyflenwad trydan yn methu.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff tymheredd yr ystafell sy'n cynnwys meddyginiaeth nad oes angen ei chadw mewn oergell ei fonitro'n rheolaidd.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl.

Defnyddiwyd Codau Read i nodi plant sy'n destun pryderon diogelu. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd Codau Read priodol i nodi aelodau teulu'r plant hyn.

Rhaid i'r practis sicrhau y tynnir sylw at aelodau teulu plant sy'n destun pryderon diogelu gan ddefnyddio Codau Read priodol.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod diogelwch dyfeisiau trydanol cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd. Cadarnhawyd bod cyfarpar meddygol untro tafladwy yn cael ei ddefnyddio lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen cynnal gwiriad blynyddol ar rai eitemau o'r cyfarpar meddygol a'u calibradu ers mis Chwefror 2025.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr eitemau meddygol eu gwirio a'u calibradu yn ddi-oed.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r ffordd roedd y practis yn cael ei weithredu a chawsom wybod eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom eu bod yn drefnus iawn ac yn cynnwys tystiolaeth bod dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith wrth ddarparu gofal.

Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion am y clinigydd a digon o fanylion am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddir i bob claf. |

Cofnodion cleifion

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Gwnaethom edrych ar gofnodion deg claf a gwelsom fod system rheoli cofnodion effeithiol ar waith, gan gynnal eu diogelwch i atal mynediad heb awdurdod. Roedd cofnodion y cleifion yn gyfredol, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da, ac roeddent yn dangos bod cydsyniad claf wedi'i gael pan fo'n briodol.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd prosesau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom enghreifftiau da o reoli salwch aciwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Disgrifiodd y staff systemau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau o bwys a dysgu ohonynt. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth i ddangos bod unrhyw weithgarwch archwilio Codau Read a chrynhoi nodiadau ar waith.

Rhaid i'r practis roi proses ar waith ar gyfer archwilio Codau Read yn rheolaidd a chrynhai nodiadau i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyson.

Cadarnhaodd y staff clinigol fod proses gynhwysfawr ar waith ar gyfer derbyn a rhannu ymarfer newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau NICE newydd neu ddiwygiedig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd proses rheolwr y practis o oruchwylio'r gwasanaethau a ddarperir yn briodol, a dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis a meddygon teulu sy'n bartneriaid yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Fodd bynnag, roedd angen adolygu rôl a chyfrifoldebau rheolwr y practis i sicrhau bod ganddi ddigon o amser ac adnoddau i gyflawni ei dyletswyddau'n llawn. At hynny, dylai partneriaid y meddyg teulu adolygu eu rolau a'u rhan yn y broses o reoli'r gwasanaeth er mwyn cefnogi rheolwr y practis.

Rhaid i'r practis adolygu rôl a chyfrifoldebau rheolwr y practis i sicrhau bod ganddi ddigon o amser ac adnoddau i gyflawni ei dyletswyddau'n llawn, a dylai'r meddygon teulu sy'n bartneriaid adolygu eu rolau a'u rhan yn y broses o reoli'r gwasanaeth er mwyn cefnogi rheolwr y practis.

Roedd prosesau ar waith er mwyn sicrhau y cynhelir ffocws ar welliant parhaus. Fodd bynnag, nid oedd llawer o dystiolaeth bod archwiliadau clinigol cyffredinol a mwy penodol ac adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal.

Rhaid i'r practis ffurfioli'r prosesau ar gyfer archwiliadau clinigol cyffredinol a mwy penodol ac adolygiadau gan gymheiriaid.

Roedd y staff yn barchus ac yn gwrtais, a gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion ac a oedd yn gwbl ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w harwain yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom drafod y broses o recriwtio staff â rheolwr y practis a gadarnhaodd fod prosesau recriwtio priodol yn cael eu dilyn, a oedd yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff ar lefel sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt.

Roedd y wybodaeth a welsom yn y ffeiliau staff yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid rhoi matrices hyfforddiant staff ar waith er mwyn nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant ac unrhyw ddyddiadau adnewyddu. **Dylai'r practis gynnal matrices hyfforddiant staff er mwyn nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant ac unrhyw ddyddiadau adnewyddu.**

Roedd cymorth a threfniadau goruchwyllo anffurfiol ar waith ar gyfer y staff o ddydd i ddydd. Nid oedd y cyfarfodydd arfarnu perfformiad a datblygiad blynyddol yn cael eu cynnal yn gyson. Fodd bynnag, mae rheolwr y practis yn bwriadu ffurfioli'r broses ar gyfer pob aelod o'r staff.

Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfarfodydd arfarnu perfformiad a datblygiad blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff â'i reolwr llinell.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwnaethom drafod y dull ar gyfer mynd ati i gael adborth gan gleifion, sef dosbarthu holiaduron blynyddol i'r cleifion. Trafodir adborth cleifion â'r staff er mwyn gwella neu ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach.

Roedd gwybodaeth am sut i godi pryderon neu wneud cwyn ar gael yn y brif ardal aros.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd trefniadau digonol ar waith ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR).

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod y staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd drwy ddatblygu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal, a'u rhoi ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd rhan mewn prosiectau ar draws y clwstwr cyfan.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth lle roedd y practis yn cydweithio fel rhan o'r clwstwr meddygon teulu. Roedd staff yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstwr cyfan.

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol y gymuned ac mae amrywiaeth eang o wasanaethau eraill gerllaw. Felly, mae cyfleoedd ychwanegol ar gael i'r practis gryfhau ei gysylltiadau â'r gymuned.

|

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Gardden Road

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni chafodd AGIC sicrwydd bod trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhoi yn unol â'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion sydd wedi'u hawdurdodi ac sy'n gyfredol. Nid oedd rhai o'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion a ddefnyddir yn y	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion eu hawdurdodi'n gywir a'u bod yn gyfredol.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	Rydym wedi adolygu'r holl Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion a gallwn gadarnhau eu bod i gyd yn gyfredol ac wedi cael eu hawdurdodi'n gywir gan y meddyg teulu.	Rachel Barnes	Wedi'i gwblhau

practis wedi cael eu hawdurdodi'n gywir nac yn gyfredol. Roedd hyn yn peri risg o niwed i'r cleifion.					
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rachel Barnes

Teitl swydd: Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol

Dyddiad: 31/03/2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Gardden Road

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oes gan y practis daflen gwybodaeth i gleifion ar hyn o bryd a fyddai o gymorth i'r cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd.	Dylai'r practis ddatblygu a chyflwyno taflen wybodaeth i gleifion i helpu'r sawl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.	Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Mae taflen wybodaeth i gleifion ar gael yn y practis. Gweler y ddogfen atodedig.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
2.	Nid oedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn y practis.	Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.		Mae'r arwyddion dwyieithog wedi'u diweddarau. Bydd pob hysbyseb swydd yn hyrwyddo'r broses o recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Byddwn yn annog y staff i ymuno	Rheolwr y Practis	Parhaus

				â sesiynau Cymraeg am ddim ar-lein.		
3.	Roedd angen ailaddurno rhannau o'r coridor.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y rhannau o'r coridor yr effeithiwyd arnynt yn cael eu hailaddurno.	Gofal Diogel	Byddwn yn mynd i'r afael â hyn pan fydd cyllid ar gael	Rheolwr y Practis	Parhaus
4.	Roedd un o'r gwresogyddion yn y coridor sy'n arwain i'r ystafelloedd ymgynghori o'r brif ardal aros yn boeth iawn a gallai beri risg i'r cleifion a'r staff.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y gwresogydd yn y coridor sy'n arwain at yr ystafelloedd ymgynghori o'r brif ardal aros yn cael ei orchuddio neu fod ei dymheredd yn cael ei reoleiddio i leihau'r risg o niwed i'r cleifion a'r staff.		Rydym yn aros am gyngor proffesiynol	Rheolwr y Practis	Parhaus
5.	Nid oedd y polisi rheoli heintiau, a gafodd ei adolygu ym mis Chwefror 2025, wedi'i lofnodi gan yr aelod o staff a adolygodd y polisi.	Rhaid i'r practis sicrhau bod polisiau'n cael eu llofnodi gan yr aelod o staff sy'n eu hadolygu.		Caiff y polisi hwn ei adolygu eto a'i lofnodi gan yr Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol ar ôl ei adolygu.	Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol	3 mis
6.	Nid oedd y cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin yn	Rhaid i'r practis osod cefnfyRDDau newydd yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin, i leihau'r risg o groes-heintio.		Rydym wrthi'n adolygu'r maes pryder hwn ac ymdrinnir ag ef pan fydd cyllid yn	Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol/Rheolwr y Practis/Meddyg Teulu	3 mis

	cyrraedd safonau cyfredol gan fod cefnfyRDDau teils arnynt. Roedd yn anodd glanhau'r cefnfyRDDau oherwydd hyn ac roedd yn cynyddu'r risg o groesheintio.	
7.	Nid oedd meddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng wedi'i storio mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno.	Rhaid i'r practis sicrhau bod meddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng yn cael ei storio mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno.
8.	Nid oedd unrhyw ffordd o fonitro tymheredd yr oergell pe bai'r cyflenwad trydan yn methu.	Rhaid i'r practis sicrhau y gellir monitro tymheredd yr oergell pe bai'r cyflenwad trydan yn methu.

	caniatáu i ni wneud hynny		
	Mae hyn wedi'i roi ar waith	Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol	Wedi'i gwblhau
	Mae gennym declyn cofnodi data ym mhob oergell lle y caiff y data eu lawrlwytho bob mis. Rydym yn monitro'r tymheredd ddwywaith y dydd ac yn ei gofnodi ar bapur. Byddai'r teclynnau cofnodi data yn ein hysbysu os nad yw'r	Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol	Wedi'i gwblhau

			tymheredd o fewn yr amrediad cywir. Nid ydym yn siŵr pa broses fonitro arall y mae angen ei rhoi ar waith.		
9.	Nid oedd tymheredd yr ystafell a oedd yn cynnwys meddyginiaeth nad oedd angen ei chadw mewn oergell yn cael ei fonitro.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff tymheredd yr ystafell sy'n cynnwys meddyginiaeth nad oes angen ei chadw mewn oergell ei fonitro'n rheolaidd.	Rydym wedi archebu thermomedr digidol symudol a chaiff y tymheredd ei fonitro'n ddyddiol.	Uwch-ymarferydd Nyrsgol Clinigol Arweiniol	Wedi'i gwblhau
10.	Ni chaiff Codau Read priodol eu defnyddio fel mater o drefn i nodi aelodau teulu'r plant sy'n destun pryderon diogelu.	Rhaid i'r practis sicrhau y tynnir sylw at aelodau teulu plant sy'n destun pryderon diogelu gan ddefnyddio Codau Read priodol.	Rydym wedi cynnal archwiliad a byddwn yn defnyddio codau ar gyfer pob plentyn a nodir o'r chwiliad yn briodol.	Uwch-ymarferydd Nyrsgol Clinigol Arweiniol	3 mis
11.	Roedd angen cynnal gwiriad blynyddol ar rai eitemau o'r cyfarpar meddygol a'u calibradu ers mis Chwefror 2025.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr eitemau meddygol eu gwirio a'u calibradu yn ddi-oed.	Cwblhawyd 16 Ebrill 2025	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

12.	Prin oedd y dystiolaeth i ddangos bod unrhyw weithgarwch archwilio Codau Read a chrynhai nodiadau ar waith.	Rhaid i'r practis roi proses ar waith ar gyfer archwilio Codau Read yn rheolaidd a chrynhai nodiadau i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyson.		Byddwn yn adolygu rhwng 10 ac 20 o gofnodion gofal bob mis i sicrhau bod Codau Read priodol wedi'u defnyddio a byddwn yn archwilio'r broses o grynhoi nodiadau meddygol	Meddyg Teulu/Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol	Parhaus
13.	Mae angen adolygu rôl a chyfrifoldebau rheolwr y practis i sicrhau bod ganddi ddigon o amser ac adnoddau i gyflawni ei dyletswyddau'n llawn. At hynny, dylai partneriaid y meddyg teulu adolygu eu rolau a'u rhan yn y broses o reoli'r gwasanaeth er mwyn cefnogi rheolwr y practis.	Rhaid i'r practis adolygu rôl a chyfrifoldebau rheolwr y practis i sicrhau bod ganddi ddigon o amser ac adnoddau i gyflawni ei dyletswyddau'n llawn, a dylai'r meddygon teulu sy'n bartneriaid adolygu eu rolau a'u rhan yn y broses o reoli'r gwasanaeth er mwyn cefnogi rheolwr y practis.	Arweinyddiaeth	Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt. Byddwn yn hysbysebu ar gyfer rheolwr derbynfa yn fuan i leihau'r pwysau sydd ar reolwr presennol y practis. Meddygon teulu i ymgysylltu'n rheolaidd â rheolwr y practis er mwyn rhoi cymorth iddi.	Rheolwr y Practis/Meddygon Teulu	Parhaus
14.	Nid oedd llawer o dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau clinigol cyffredinol a mwy penodol ac	Rhaid i'r practis ffurfioli'r prosesau ar gyfer archwiliadau clinigol cyffredinol a mwy penodol		Mae'r Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol wrthi'n adolygu'r archwiliadau a'r	Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol/Meddyg Teulu	Parhaus

	adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal.	ac adolygiadau gan gymheiriaid.		sesiynau goruchwyllo clinigol a bydd yn helpu'r staff clinigol pan fo angen		
15.	Nid oedd unrhyw fatrics hyfforddiant staff ar waith er mwyn nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant nac unrhyw ddyddiadau adnewyddu.	Dylai'r practis gynnal matrices hyfforddiant staff er mwyn nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant ac unrhyw ddyddiadau adnewyddu.	Y Gweithlu	Rydym wrthi'n cwblhau matrices hyfforddiant staff	Rheolwr y Practis	Parhaus
16.	Nid oedd y cyfarfodydd arfarnu perfformiad a datblygiad blynyddol yn cael eu cynnal yn gyson.	Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfarfodydd arfarnu perfformiad a datblygiad blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff â'i reolwr llinell.		Rydym wrthi'n trefnu i gynnal adolygiadau blynyddol ar gyfer pob aelod o'r staff yr un adeg	Uwch-ymarferydd Nyrsio Clinigol Arweiniol/Rheolwr y Practis	Bob blwyddyn

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Sushila Manilal

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad:

21/05/2025